**Ailagor Ysgolion**

**Cwestiynau Cyffredin**

**C. Os penderfynaf beidio ag anfon fy mhlentyn i'r ysgol, a gaf i fy nghosbi neu fy nirwyo?**

A. Ni chaiff rhieni/gwarcheidwaid eu dirwyo na'u cosbi am beidio ag anfon eu plentyn i'r ysgol yn ystod pedair wythnos olaf y tymor.

Mae'n bosibl y bydd rhai teuluoedd yn cysgodi ac efallai na fydd eraill yn barod i ddychwelyd i'r ysgol. Mae'r cynnig yno i ddychwelyd i'r ysgol yn rhan-amser pe bai'r rhieni'n dymuno ei dderbyn.

Rydym yn parchu penderfyniad pob teulu unigol yn ystod y cyfnod 29 Mehefin i 24 Gorffennaf. Nid yw'n glir eto beth fydd y sefyllfa ym mis Medi.

Os penderfynwch nad yw eich plentyn yn mynd i fynychu'r ysgol ac yna'n penderfynu yn nes ymlaen eich bod am i'ch plentyn fynychu'r ysgol – bydd yn rhaid i chi roi wythnos o rybudd i'r ysgol bod eich plentyn yn dymuno dychwelyd i'r ysgol.

**C. Pa fesurau rhagofalus fydd ar waith?**

A. Ymysg y mesurau rhagofalus, bydd y canlynol:

- Cymerir tymheredd pob plentyn wrth iddo gyrraedd yr ysgol. Os yw'r tymheredd dros 37.5ºC, bydd gofyn i'r plentyn (ac unrhyw frodyr a chwiorydd/aelodau o'r teulu) hunanynysu am 14 diwrnod.
- Bydd gan bob ysgol ei hystafell ynysu benodol, pe bai plentyn neu aelod o staff yn dechrau teimlo'n sâl yn ystod y dydd
- Mae pob ysgol wedi cyfrifo beth yw uchafswm y disgyblion y gellir eu cael i mewn i ystafell ddosbarth, os glynir wrth bellter cymdeithasol o 2 fetr.
- Y nifer uchaf posibl o blant y gall ysgol ei dderbyn ar unrhyw ddiwrnod penodol yw traean capasiti'r ysgol h.y. os oes gan ysgol gapasiti o 60, ni all mwy nag ugain o blant fynychu'r ysgol fesul diwrnod
- Efallai na fydd pawb yn cael amserau egwyl a chinio ar yr un pryd
- Bydd ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cyffredin yn cael eu sychu'n lân yn rheolaidd
- Bydd ysgolion yn cael eu glanhau'n drylwyr bob nos
- Dim ond un rhiant/gwarcheidwad fydd yn cael hebrwng plentyn i'r ysgol/casglu plentyn o'r ysgol
- Bydd arwyddion clir o amgylch yr ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd golchi dwylo, hylendid a chadw pellter cymdeithasol

Cofiwch fod safle pob ysgol yn wahanol a bydd gan bob ysgol fesurau rhagofalus gwahanol ar waith e.e. bydd lleoliad man gollwng plant yn amrywio o ysgol i ysgol/ bydd gan rai ysgolion systemau unffordd ayb.

Bydd gan bob ysgol ei chynllun ailagor graddol ei hun, bydd pob ysgol wedi cynnal cyfarfodydd safle a'r rheiny wedi eu cydnabod gan yr Awdurdod Lleol.  Yn ogystal, bydd gan bob ysgol ei Hasesiad Risg ei hun.

Bydd eich ysgol yn gallu darparu gwybodaeth bellach i chi.

Gofynnir yn garedig i chi gwblhau'r holiadur ar-lein hwn yn nodi a fydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol – bydd yr wybodaeth hon o gymorth i ysgolion allu cynllunio ar gyfer croesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol a rhoi mesurau rhagofalus ar waith.

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k5kKi6E0tztNlMtypngM_GBUQU9SOTQ4OFZUQ1g2WVo2VzlSOVBESFRENy4u

**C. Fel arfer mae fy mhlentyn yn cael cludiant i'r ysgol – a fydd cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod hwn?**

A. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu.  Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar y galw, oherwydd dim ond nifer fach o ddisgyblion a fydd yn gallu mynd ar bob bws.  Byddem yn ddiolchgar iawn petaech chi, yn y cyfamser, yn gallu ein cynorthwyo ni gyda'r cludiant. Ni allwn warantu ar hyn o bryd y bydd bysiau yn rhedeg ar hyd bob llwybr bws, gan mai diogelwch ein disgyblion fydd y flaenoriaeth.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn llenwi'r holiadur ar-lein gan nodi a fydd angen cludiant ysgol ar gyfer eich plentyn – bydd hyn yn galluogi'r awdurdod i weithio gyda'r cwmnïau bysiau yn well, er mwyn gallu cynllunio'r llwybrau bysiau a rhoi mesurau diogelwch ar waith.

**C. A fydd prydau ysgol yn cael eu darparu i ddisgyblion sy'n dychwelyd i'r ysgol?**

A. Bydd gofyn i bob plentyn ddod â phecyn cinio a photel ddŵr ei hun.  Ni fydd prydau bwyd ysgol yn cael eu darparu mewn UNRHYW ysgol.  Bydd rhieni/warcheidwaid y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim eisoes wedi derbyn taliad BACS/taleb archfarchnad i brynu bwyd i'w plentyn.

**C. Rwy'n weithiwr allweddol ac mae fy mhlentyn wedi bod yn mynychu un o'r canolfannau gofal plant.  A fyddaf yn parhau i anfon fy mhlentyn i ganolfan gofal plant?  A fydd y ddarpariaeth yn parhau i fod o 8.00am – 6pm?**

A. Bydd y canolfannau gofal plant yn dod i ben ar 20 Mehefin.  Bydd plant gweithwyr allweddol yn gallu mynychu eu hysgol leol am 5 diwrnod yr wythnos.  Bydd y ddarpariaeth yn cwmpasu'r diwrnod ysgol arferol, sef o 9.00am tan 3.30pm.  Bydd angen i ddisgyblion sydd angen y ddarpariaeth hon gofrestru ar wefan y Cyngor erbyn 9am fore Mercher ar gyfer yr wythnos ganlynol.

**C. Sut fydd fy mhlentyn yn elwa o fynychu'r ysgol am un diwrnod yr wythnos am 4 wythnos?**

A. Bydd ffocws clir yn cael ei roi ar les eich plentyn yn ystod y sesiynau cofrestru. Bydd pob disgybl yn elwa o fynychu'r ysgol am un sesiwn neu fwy yr wythnos, gan y bydd yn gyfle iddynt gyfarfod â'u hathro a gweld eu cyfoedion o fewn amgylchedd ysgol eu hunain. Bydd dysgu o bell yn parhau ar y cyd â chyswllt wyneb yn wyneb. I'r disgyblion hynny ym mlwyddyn 10 a 12 yn benodol, bydd mynychu'r ysgol yn fuddiol i'w datblygiad ac yn gymorth pellach o ran eu gwaith TGAU a Safon Uwch. Bydd hefyd yn sicrhau y bydd plant yn medru defnyddio Teams yn effeithiol er mwyn cefnogi dysgu o bell. Felly, bydd yn gyfle i "gofrestru, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi."  Bydd mynychu'r ysgol hefyd yn dechrau paratoi plant ar gyfer yr hyn a fydd y 'normal newydd' ym barod ar gyfer tymor yr Hydref.

Fodd bynnag, dewis y rhieni yw hwn a byddwn yn parchu eich penderfyniad ac yn parhau i gefnogi lles ac addysg eich plentyn.

**C. Beth fydd angen i'm plentyn ddod gyda nhw i'r ysgol?**

A. Bydd angen i'ch plentyn ddod â'r canlynol:

- Eu pecyn bwyd eu hunain
- Eu potel ddŵr eu hunain
- Eu câs pensiliau eu hunain

Ni fyddant yn gallu rhannu eu hadnoddau gyda phlant eraill na'r staff.